SEWR 02-02

Cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Rhanbarth y De Ddwyrain ar ddydd Gwener 8 Mawrth yng **Nghanolfan Chwaraeon y Rhondda, Parc Gelligaled, Yr Ystrad 9.30am hyd 12.30pm**. Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar faterion anabledd.

Bydd y cyfarfod yn cynnwys cyflwyniad gan y Comisiwn Hawliau Anabledd ynghylch eu gwaith i ddileu’r camwahaniaethu y mae pobl anabl yn eu hwynebu, ac i hybu cyfle cyfartal. Bydd y Pwyllgor hefyd yn gwrando ar gyflwyniadau gan Anabledd Cymru a sefydliadau gwirfoddol eraill sy’n gweithio gyda phobl anabl yn y gymuned.

Bydd yr agenda terfynol yn cael eu cyhoeddi ar 1 Mawrth.

Bydd cyfle i'r cyhoedd holi Aelodau'r Cynulliad a'r cyflwynwyr yn ystod y cyfarfod.

**NB- Dylai’r cyhoedd nodi mai nifer cyfyngedig o seddi sydd yn yr oriel gyhoeddus ac fe’ch cynghorir i archebu lle ymlaen llaw. Gallwch wneud hyn drwy ffonio llinell archebu’r Cynulliad ar 029 2089 8477. Mae’r llinell archebu ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 4.30pm.**

**Os oes gennych anghenion penodol ar gyfer y cyfarfod, dywedwch wrth aelod o’r tîm archebu. Cewch fanylion y cyfarfod mewn fformat arall o ofyn amdano.**